



8-10 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Ysgrifennu geiriau;
Chwarae fel ensemble;
Curiad; Canu.

Offerynnau?

Na

Hygyrchedd

Mae'r cynllun gwrs
Cyfnod Sylfaen yma
yn addas i ddisgyblion
sydd â mân anawsterau
dysgu
a dosbarthiadau
sydd â chymorth
Cynorthwydd
Addysgu.



Gofynnwch i un o'r plant
arwain - mae symud y
ffocws i bobl eraill yn
helpu i feithrin hyder ac
mae hefyd yn dangos ein
bod i gyd yn dîm.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Copio Copio

Mae Copio Copio yn gêm hwyliog i wneud i'r plant ganolbwyntio arnoch chi. Mae'n gyfle i'r plant roi cynnig ar greu seiniau drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro ac mae'n helpu i ddatblygu synnwyr o guriad ar y cyd. Gallwch chi weld y gweithgaredd hwn ar waith yng nghasgliad fideos Teacher Techniques.

I chwarae'r gêm, mae'r plant yn cael sefyll unrhyw le yn yr ystafell, ond mae angen iddyn nhw allu eich gweld chi. Dywedwch wrth y plant fod angen iddyn nhw eich copio chi, a gwneud yn union beth rydych chi'n ei wneud ar union yr un pryd (neu cyn gynted â phosib).

Dechreuwch gyda symudiadau syml gan ddefnyddio un rhan o'r corff, er enghraifft ysgwyd eich llaw dde yn yr awyr, wedyn eich troed dde, eich braich chwith ac ati.

Gallwch eu gwneud yn fwy cymhleth drwy symud dwy ran o'r corff ar yr un pryd, er enghraifft, ysgwyd eich braich dde a tharo eich pen gyda'ch llaw chwith ar yr un pryd.

Nawr symudwch ymlaen i glapio, gyda'r nod o gael yr holl blant i glapio union yr un pryd â chi.

Awgrym: Cyflymder y curiad i fyny (codi eich llaw cyn i chi glapio) sy'n dangos i'r plant pryd fydd y clap yn digwydd.

Symudwch ymlaen i gael y plant i gopio patrwm 4 curiad o seiniau drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro. Gallwch chi ddewis beth fydd y seiniau hyn yn eich dosbarth, ond gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw yn rhy gymhleth!

Bydd defnyddio'r corff fel offeryn taro mewn ffordd briodol yn amrywio yn ôl gallu eich dosbarth, ond mae clapio, taro cluniau a stompio yn haws ac yn edrych yn wahanol i'w gilydd.



Chwaraewch y gân *Hands in the Air* gan ddefnyddio adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* ar ein gwefan.

Yn yr un modd ag o'r blaen, dylai'r plant geisio eich copïo chi, gan wneud yr un seiniau â chi union yr un pryd. Dechreuwch drwy wneud y sain gyntaf yn unig ar gyfer curiad rhif 1, a chyfrif curiadau 2, 3 a 4 yn eich pen.

Gwnewch hyn ychydig o weithiau wrth i'r plant ddechrau teimlo'r curiad ar y cyd. Nawr ychwanegwch yr ail sain ar gyfer curiad rhif 2, ac yn y blaen nes i chi ychwanegu'r 4 sain drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro.

Estyniad: Ychwanegwch ragor o seiniau i greu patrymau gyda 5, 6, 7 neu hyd yn oed 8 curiad.



5 munud



Gwrandewch ar y gân *Hands in The Air* ac eglurwch i'r plant ein bod am ddysgu'r gytgan. Yn y gân yma, mae'r gytgan yn cael ei pherfformio fel 'na' rhwng y geiriau.

Gofynnwch i'r plant geisio adnabod sawl alaw/tiwn wahanol sydd yn y gytgan.



Dysgwch y ddwy alaw hyn i'r plant. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp gydag un tîm yn perfformio'r alaw gyntaf a'r ail dîm yn ateb gyda'r ail.

Mae adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* yn gallu chwarae'r lleisiau ar eu pen eu hunain neu ddim ond yr offerynnau er mwyn ei gwneud hi'n haws dysgu'r gân.



Estyniad: Perfformiwch hyn gyda'r trac, ac yn yr adrannau gyda'r geiriau, gwnewch y symudiadau.





25 munud

3. Prif Weithgaredd

Rhythmau Taro'r Corff

Dysgwch y rhythm yma i'r plant:



Wrth ddysgu'r rhythm hwn:

- Dywedwch y rhythm yn gyntaf, naill ai drwy ddefnyddio'r geiriau uchod (e.e. cluniau, clap, clap, clap)
- Neu drwy ddefnyddio'r enwau Kodaly ar gyfer pob nodyn ('Ta' a 'Ti-Ti' - gwylwch y fideo Teaching Rhythms yn Teacher Techniques i gael rhagor o wybodaeth).
- Pan fydd y plant yn gyfforddus yn dweud y rhythm, rhowch gynnig ar glapio'r cwbl.
- Yn olaf, defnyddiwch yr holl seiniau gwahanol drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro.

Bydd y rhythm defnyddio'r corff fel offeryn taro yn cymryd lle'r ail alaw roeddem wedi'i chanu'n gynharach.

Nawr rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofyn iddyn nhw gyfansoddi eu rhythmau eu hunain drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro. Ni ddylai'r rhythmau newydd hyn gynnwys mwy nag 8 curiad.

Rhowch amser i'r plant chwarae gyda chreu seiniau gwahanol drwy ddefnyddio eu cyrff, a phan fyddant yn cyfuno seiniau i greu rhythm, gwnewch yn siŵr nad ydy'r symudiadau/seiniau yn rhy gymhleth fel nad oes modd eu chwarae wrth eu rhoi gyda'i gilydd!



Wrth ddysgu'r rhythmau, defnyddiwch y dechneg galw ac ateb. Mae hyn yn golygu y byddech chi'n dweud/clapio/chwarae'r rhythm yn gyntaf, ac wedyn byddai'r plant yn copïo hynny. Os bydd y plant yn ei chael hi'n anodd ymateb i batrwm, torrwyd y patrwm yn ddau hanner.



- Pan fydd y plant yn ymarfer eu patrymau rhythmig, mae'n gallu bod yn ddefnyddiol chwarae'r curiad ar offeryn arall neu weiddi'r rhifau 1 i 8.
- Wrth ddysgu rhythmau, dywedwch/clapiwch/chwaraewch y rhythm yn gyntaf.
- Os bydd y plant yn ei chael hi'n anodd ymateb i batrwm, torr wch y patrwm yn ddau hanner.

4. Arddangos

Rhowch gyfle i bob grŵp arddangos eu rhythmau newydd drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro. Bydd y rhythmau hyn sy'n defnyddio'r corff fel offeryn taro yn cymryd lle'r alaw gyntaf y gwnaethom ei chanu'n gynharach.

Gofynnwch i grŵp 1 berfformio eu rhythm sy'n defnyddio'r corff fel offeryn taro, a fydd yn cael ei ateb ar unwaith gan bawb yn gwneud yr ail batrwm.

Wedyn bydd grŵp 2 yn gwneud eu rhythm sy'n defnyddio'r corff fel offeryn taro, a fydd yn cael ei ateb ar unwaith gan bawb yn gwneud yr ail batrwm eto, ac yn y blaen nes i bob grŵp gael cyfle i berfformio eu rhythm eu hunain.

Rhowch gynnig ar chwarae gyda'r trac fel o'r blaen, ond y tro yma yn lle canu rydyn ni'n defnyddio'r corff fel offeryn taro.



5. Cyngor AAAA

Gweithgaredd i Gynhesu

- Efallai bydd angen dechrau drwy ddefnyddio'r llais yn lle rhythmiau clapio er mwyn i rai o'r disgyblion ddeall.
- Ychwanegwch eiriau at y clapio i helpu. Gallwch ddefnyddio'r geiriau 'clap' a 'stamp' hyd yn oed.
- Efallai bydd angen i chi ddefnyddio system goleuadau traffig gyda symbolau cyfathrebu llun i helpu'r dysgwyr gweledol a'r rheini sy'n cael trafferth cyfri.

Gwrando ar y gân

- Gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr i gyd yn hyderus gyda'r clapio cyn cyflwyno mwy o seiniau drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro. Gallwch rannu'r dosbarth yn ddau grŵp (gydag un yn grŵp gallu cymysg) os bydd rhai yn gweld hyn yn anodd.
- Cefnogwch y disgyblion drwy gynnig enghreifftiau corfforol iddyn nhw eu dilyn, ee clicio bysedd, taro cefn dwylo neu lithro esgidiau yn ôl ac ymlaen. Efallai bydd rhai dysgwyr yn ei chael hi'n haws glynu wrth un ffordd o wneud seiniau.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cymraeg (Ysgrifennu Caneuon)
Mathemateg (Adnabod Patrymau)
Gwyddoniaeth (Y Byd Naturiol)



Allweddeiriau

Defnyddio'r corff fel offeryn taro: seiniau sy'n cael eu gwneud drwy ddefnyddio eich corff.

Kodaly: Datblygodd Zoltan Kodaly ffordd o ddarllen a dysgu cerddoriaeth drwy ddefnyddio symudiadau'r corff a chanu

Geiriau: y geiriau mewn cân.

Alaw: prif diwn y gân.

Curriad: pwls cyson, fel cloc yn tician.

Rhythm: patrwm o seiniau hir a byr.